

# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG



**Cynnig i ail-ddynodi Ysgol  
Gynradd Gymunedol Licswm yn  
Ysgol yr Eglwys yng Nghymru a  
Gynorthwyr yn Wirfoddol**



**Medi 2019**

**Mae fersiynau print bras, Braille, ieithoedd gwahanol a chopi  
caled o'r ddogfen hon ar gael ar gais**

---

## CYNNWYS

---

<b>A.</b>	<b>AMLINELLIAD O'R ASESIAD</b> .....	<b>4</b>
1.	Cyflwyniad .....	4
2.	Pwrpas yr Aseiad.....	4
<b>B.</b>	<b>LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL</b> .....	<b>4</b>
3.	Y Nodau .....	4
4.	Datblygu Cynaliadwy .....	5
<b>C.</b>	<b>MEYSYDD ASESU</b> .....	<b>5</b>
<b>D.</b>	<b>EFFEITHIAU POSIBL</b> .....	<b>6</b>
5.	Cyfraniad At Nodau Llesiant.....	6
6.	Cyfraniad at Ddatblygu Cynaliadwy .....	7
7.	Aseiad Effaith Cydraddoldeb a Hawliau Dynol .....	8
8.	Aseiad Effaith Iaith Gymraeg .....	9
9.	Aseiad Effaith Amgylcheddol a Bioamrywiaeth.....	10
10.	Aseiad Effaith Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn .....	11
11.	Aseiad Effaith Iechyd .....	12
12.	Aseiad Effaith Tlodi.....	12
<b>E.</b>	<b>HYBU EFFAITH GADARNHAOL</b> .....	<b>14</b>
<b>F.</b>	<b>CASGLIAD</b> .....	<b>15</b>

---

## A. AMLINELLIAD O'R ASESIAD

---

### 1. Cyflwyniad

- 1.1. Mae Cyngor Sir y Fflint yn awyddus i gael barn partion â diddordeb ynghylch y cynnig i ail-ddynodi Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm yn Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir (Eglwys yng Nghymru) o 1 Medi 2020.
- 1.2. Mae dogfen ymgynghori ffurfiol yn cynnwys gwybodaeth y dylai ymgynghoreion ei hystyried er mwyn cymryd rhan lawn yn y broses ymgynghori. Mae'r broses yn dilyn canllaw rheoleiddio fel sydd wedi'i chynnwys yng Nghod Trefniadaeth Ysgol Llywodraeth Cymru 2018.
- 1.3. Y ffigurau, ystadegau a'r deunydd y cyfeirir ato yn y ddogfen hon yw'r rhai mwyaf cywir ar adeg cyhoeddi.

### 2. Pwrpas yr Asesiad

- 2.1. Mae'r Asesiad Effaith Integredig hwn yn ceisio nodi effeithiau cadarnhaol a negyddol bob opsiwn arfaethedig ac amlinellu camau y gellir eu gweithredu i liniaru unrhyw effeithiau a nodwyd.
- 2.2. Bydd yr Asesiad Effaith Integredig yn ystyried sut mae'r cynigion yn cyfrannu at nodau'r Cyngor o dan Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a sut maent yn cyflawni'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
- 2.3. Bydd y ddogfen hefyd yn cynnwys nifer o asesiadau unigol er mwyn gwerthuso effeithiau posibl y cynnig.

---

## B. LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

---

### 3. Y Nodau

- 3.1. Pwrpas Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.
- 3.2. Mae'r Ddeddf yn amlinellu'r 7 nod llesiant sy'n darparu gweledigaeth gyffredin i gyrrff cyhoeddus yng Nghymru weithio tuag atynt, sef:
  - Cymru lewyrchus;
  - Cymru gydnerth;
  - Cymru iachach;
  - Cymru sy'n fwy cyfartal;
  - Cymru o gymunedau cydlynus;
  - Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

## 4. Datblygu Cynaliadwy

- 4.1. Hefyd yn rhan o'r Ddeddf mae egwyddor datblygu cynaliadwy sy'n golygu bod yn rhaid i'r Cyngor weithredu mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion heddiw yn cael eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.
- 4.2. Mae 5 Ffordd o Weithio sy'n gallu dangos bod y Cyngor wedi defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy:
  - Hirdymor;
  - Atal;
  - Integreiddio;
  - Cydweithio; a
  - Chynnwys.
- 4.3. Mae gwybodaeth bellach am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ar <https://futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/>

---

## C. MEYSYDD ASESU

---

- 4.4. Mae nifer o feysydd sy'n gallu cael eu heffeithio gan unrhyw gynigion ac mae angen ystyried pob un yn ofalus.
- 4.5. Mae'r asesiadau effaith canlynol wedi'u hintegreiddio i'r ddogfen hon i ddarparu gwerthusiad cynhwysfawr o effeithiau posibl:
  - Cydraddoldeb a Hawliau Dynol;
  - Iaith Gymraeg;
  - Amgylcheddol a Bioamrywiaeth;
  - Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn;
  - Iechyd; a
  - Thlodi.

## D. EFFEITHIAU POSIBL

### 5. Cyfraniad At Nodau Llesiant

Disgrifiad	Cyfraniad
<b>Cymru lewyrchus</b>	
Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.	
<b>Cymru gydnerth</b>	
Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid).	
<b>Cymru iachach</b>	
Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.	
<b>Cymru sy'n fwy cyfartal</b>	
Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (yn cynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd gymdeithasol).	

Disgrifiad	Cyfraniad
<b>Cymru o gymunedau cydlynus</b>	
Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da	
<b>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu</b>	
Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.	Bydd y cynnig yn darparu mwy o addysg yn seiliedig ar ffydd o fewn y sir, gan wella a chryfhau'r berthynas bresennol á'r eglwys.
<b>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang</b>	
Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.	

## 6. Cyfraniad at Ddatblygu Cynaliadwy

Disgrifiad	Cyfraniad
<b>Hirdymor</b>	
Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.	Mae'r cynnig yn ceisio sicrhau dyfodol hirdymor ysgol yn yr ardal yn dilyn arolwg gan CSFf yn 2018. Trwy newid ei chategori bydd yr ysgol yn cynnig cyfleoedd i fuddsoddi a chydweithio a fydd yn helpu i gynnal ei hyfywedd am flynyddoedd i ddod.
<b>Atal</b>	
Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.	

Disgrifiad	Cyfraniad
<b>Integreiddio</b>	
Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.	
<b>Cydweithio</b>	
Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.	Mae'r cynnig wedi deillio o'r awydd i ystyried trefniadau posibl i ffederaleiddio gydag ysgolion eraill Eglwys yng Nghymru. Bydd y trefniadau hyn yn rhoi mynediad i'r ysgol at gefnogaeth ac adnoddau sydd ar gael gan yr Esgobaeth a bydd yn sicrhau manteision i staff a disgyblion na fyddent fel arall yn gallu cael mynediad atynt.
<b>Cynnwys</b>	
Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu.	

## 7. Asesiad Effaith Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Nodwedd Warchoddedig	Effaith Bosibl	Camau Lliniaru
Oed	Y posibilrwydd o gael gwisg ysgol newydd i ddisgyblion. I'w benderfynu gan y Corff Llywodraethwyr.	Mynediad at raglen Cyfnewid Gwisg Ysgol.
Ailbennu rhywedd	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Anabledd	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Priodas a phartneriaeth sifil	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Beichiogrwydd a mamolaeth	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	



<b>Nodwedd Warchoddedig</b>	<b>Effaith Bosibl</b>	<b>Camau Lliniaru</b>
Hil	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Crefydd a chred	<p>Cadarnhaol – Gwella a chryfhau'r berthynas bresennol â'r eglwys.</p> <p>Cadarnhaol – Mae'r hawl i rieni dynnu eu plant o wasanaethau addoli ar y cyd ac addysg grefyddol yn dal yr un fath.</p> <p>Negyddol – Mae'n ychwanegu elfen o ffydd i'r ysgol na fyddai rhai rhieni o bosibl yn teimlo'n gyfforddus â hi.</p> <p>Negyddol - Efallai bydd rhieni nad ydynt yn dymuno i'w plentyn gael addysg sy'n seiliedig ar ffydd eisiau dewis ysgol arall nad yw'n ysgol ffydd.</p>	<p>Hybu cydraddoldeb drwy fabwysiadu gwerthoedd yr Eglwys yng Nghymru.</p> <p>Mae rhieni'n cadw'r hawl i ddewis addysg arall nad yw'n ysgol ffydd, wedi'i gefnogi gan Dîm Derbyniadau Cyngor Sir y Fflint.</p>
Rhyw	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Cyfeiriadedd rhywiol	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	

## 8. Asesiad Effaith Iaith Gymraeg

<b>Nodwedd Warchoddedig</b>	<b>Effaith Bosibl</b>	<b>Camau Lliniaru</b>
Nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg	Y posibilrwydd o gael gwisg ysgol newydd i ddisgyblion. I'w benderfynu gan y Corff Llywodraethwyr.	Mynediad at raglen Cyfnewid Gwisg Ysgol.
Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	

<b>Nodwedd Warchoddedig</b>	<b>Effaith Bosibl</b>	<b>Camau Lliniaru</b>
Cyflawni'r Safonau Iaith Gymraeg	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	

## 9. Asesiad Effaith Amgylcheddol a Bioamrywiaeth

<b>Nodwedd Warchoddedig</b>	<b>Effaith Bosibl</b>	<b>Camau Lliniaru</b>
Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Cynllunio ar gyfer newid hinsawdd yn y dyfodol	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Gwarchod dŵr arfordirol a mewndirol	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Llygredd: aer/dŵr/pridd/sŵn a dirgrynu/allyriadau	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Hybu bioamrywiaeth	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Hybu effeithlonrwydd adnoddau (ynni/dŵr/deunyddiau a mwynau)	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Lleihau gwastraff a gynhyrchir a chynyddu ailgylchu, adennill ac aildddefnyddio	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Lleihau'r angen i deithio a hybu dulliau cludiant cynaliadwy	Cadarnhaol/Negyddol Gan y gallai rhieni gael eu denu at ysgol ffydd newydd a allai fod yn nes na'r ysgol agosaf atynt, gallai hynny leihau effeithiau cludiant.	Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cludiant llawn a'i gynnwys fel rhan o'r dogfennau ymgynghori.

Nodwedd Warchoddedig	Effaith Bosibl	Camau Lliniaru
	Fodd bynnag, efallai na fydd rhai rhieni eisiau anfon eu plant i ysgol ffydd ac felly mae'n bosibl y byddant yn eu hanfon i fath arall o ysgol sydd yn bellach i ffwrdd.	
Gwella'r amgylchedd ffisegol: tai, gwasanaethau cyhoeddus, mynediad i ac ansawdd man gwyrdd	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Gwarchod a hybu'r amgylchedd hanesyddol a threftadaeth bensaernïol, archeolegol a diwylliannol	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	

## 10. Aseiad Effaith Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Nodwedd Warchoddedig	Effaith Bosibl	Camau Lliniaru
Dim gwahaniaethu	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Er budd y plentyn	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Hawl i oroesi a datblygu	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Hawl i gael llais	Erthygl 12: Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn  'Mae gan bob plentyn hawl i ddweud beth mae'n ei feddwl ddylai ddigwydd, pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, a bod eu barn yn cael ei hystyried'.	Ymgynghorir â chynrychiolwyr y disgyblion, fel arfer y cyngor ysgol, i egluro'r cynnig a chael eu barn.  Hefyd, bydd pob disgybl yn gallu cwblhau arolwg byr i roi eu barn.

## 11. Asesiad Effaith Iechyd

Nodwedd Warchoddedig	Effaith Bosibl	Camau Lliniaru
Ffyrdd o fyw	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Dylanwad Cymdeithasol a Chymunedol ar Iechyd	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Lles Meddwl	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Amodau Byw/ Amgylcheddol sy'n effeithio ar Iechyd	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Amodau economaidd sy'n effeithio ar Iechyd	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Mynediad at wasanaethau, a'u hansawdd	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Sicrhau bod oedolion a phlant yn cael eu diogelu	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Galluogi mwy o bobl i fyw'n dda ac yn annibynnol gartref	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Ffactorau macro-economaidd, amgylcheddol a chynaliadwyedd	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	

## 12. Asesiad Effaith Tlodi

Nodwedd Warchoddedig	Effaith Bosibl	Camau Lliniaru
Lleihau tanwydd tlodi	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Gwella cyfleoedd cyflogaeth leol	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	

Sicrhau cymaint â phosibl o hyfforddiaethau a phrentisiaethau	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Gwarchod pob rhag tloidi	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	
Gwella cymwysterau a sgiliau	Ni ragwelir unrhyw effaith wahaniaethol negyddol	

---

## E. HYBU EFFAITH GADARNHAOL

---

12.1. Er na ragwelir y bydd unrhyw effeithiau gwahaniaethol negyddol mewn rhai meysydd mae nifer o ddulliau cefnogi yn eu lle i helpu'r bobl hynny a allai gael eu heffeithio gan unrhyw newidiadau posibl, mae'r rhain yn cynnwys (nid yw'n rhestr gyflawn):

- Bydd unrhyw ddisgybl, rhiant/gofalwr, aelod o staff neu lywodraethwr â nodwedd warchoddedig yn cael cymorth priodol pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu.
- Bydd pob disgybl, waeth beth fo ei oed, rhyw, anabledd, hil, cred grefyddol a mamiaith yn cael cynnig cymorth bugeiliol ac i bontio os yw'n cael ei (h)effeithio gan y cynnig;
- Bydd y Cyngor yn cymryd pob cam ymarferol i leihau unrhyw darfu i'r holl ddisgyblion gan roi ystyriaeth arbennig i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY);
- Nod y rhaglen Cyfnewid Gwisg Ysgol yw annog pobl Sir y Fflint i ailgylchu a rhoddi gwisgoedd ysgol nad oes eu hangen neu nas defnyddiwyd yn hytrach na'u rhoi yn y bin. Gellir rhoddi gwisgoedd i Hosbis Tŷ'r Eos fydd yn didoli a dosbarthu gwisgoedd drwy Sir y Fflint.
- Mae'n eithaf arferol y bydd angen gwisgoedd newydd ar y rhan fwyaf o ddisgyblion wrth iddynt ddechrau blwyddyn academiaidd newydd, felly efallai bydd angen prynu gwisg newydd waeth i ba ysgol oedd y disgybl yn mynd.
- Yn ogystal â pholisiau ysgolion unigol i gefnogi staff sydd mewn perygl o golli eu swyddi, bydd y Cyngor yn darparu cefnogaeth i ystyried cyfleoedd eraill ac opsiynau ymddeol.
- Hefydd rhoddir cefnogaeth i'r cyrff llywodraethwyr i helpu i aildrefnu'r strwythur llywodraethu.
- Caiff perfformiad y ddau ryw ei fonitro ar lefel ysgol a bydd bylchau'n cael sylw drwy'r Cynllun Gweithredu Ysgol.
- Gyda nifer o wasanaethau arbenigol cydberthnasol mae Gwasanaeth Cynhwysiant y Cyngor yn sicrhau bod ei ddyletswydd o dan God Ymarfer AAA Cymru 2002 yn cael ei gyflawni. Mae'r gwasanaethau'n cynnwys:
  - Gwasanaeth Seicoleg Addysg;
  - Gwasanaeth Cwnsela Pobl Ifanc;
  - Gwasanaeth Synhwyrdd;
  - Gwasanaeth Saesneg fel Iaith Ychwanegol / Sipsiwn a Theithwyr;
  - Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol;
  - Gwasanaeth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu;
  - Gwasanaeth Lles Addysg;
  - Gwasanaeth Cefnogaeth Ymddygiad;
  - Derbyn Addysg Heblaw yn yr Ysgol; a'r
  - Gwasanaeth Cyflwr Sbectwm Awtistig .

- Mae'r Cyngor yn gweithio o fewn Deddf Cydraddoldeb 2010 i sicrhau adeiladau ysgol hygyrch i'w ddisgyblion, rhieni a gofalwyr, staff a llywodraethwyr. Caiff disgybl ag anabledd ei asesu'n unigol ac mae cyllideb ar gael i addasu ysgolion i ddisgyblion gael mynediad i'r cwricwlwm. Fodd bynnag, mae angen i addasiadau i adeiladau ddiwallu anghenion disgyblion ag anableddau a rhaid iddynt fod yn gymesur a rhesymol o fewn y gyllideb sydd ar gael;
- Bydd y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswydd statudol i fonitro darpariaeth a chyrhaeddiad disgyblion ac ysgolion yn gysylltiedig â'r maes llafur Addysg Grefyddol y cytunwyd arno;
- Mae Ysgolion Cynradd enwadol ac anenwadol ar gyfer plant rhwng 3 ac 11 ar gael yn ardal Sir y Fflint os yw disgyblion ar draws yr ardal eisiau mynediad i addysg ffydd;
- Penodir cynrychiolydd a enwir o Dîm Partner Busnes Adnoddau Dynol Cyngor Sir y Fflint i gysylltu'n uniongyrchol ag unigolion er mwyn cynnig cyngor ac arweiniad ynghylch cyfleoedd i adleoli, ymddeol ac, os bydd angen, colli gwaith.
- Bydd y Cyngor yn trefnu cyfarfodydd gydag Undebau Llafur i drafod unrhyw oblygiadau'n deillio o'r cynnig, pe bai'n cael ei weithredu.
- Ar hyn o bryd mae Cyngor Sir y Fflint yn datblygu Polisi Traws ar gyfer ysgolion, Bydd hyfforddiant ar gael i ysgolion;
- Mae gan y ddwy ysgol eu datganiadau cydraddoldeb ac amrywiaeth a'u Cynllun Cydraddoldeb Strategol eu hunain, yn ogystal â pholisïau cyflogaeth i gefnogi staff trwy unrhyw gyfnod o newid. Dylai bob ysgol gael eu hethos eu hunain o ran hybu cydraddoldeb, dileu gwahaniaethu a hybu cysylltiadau da.
- Os bydd rhieni/gofalwyr yn dewis ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg fel dewis arall, mae Ysgol Gwenffrwd yn Nhreffynnon tua 3.8 milltir o ysgol Gynradd Gymuned Licswm;
- Bydd gan ddisgyblion a staff anabl well mynediad i gyfleusterau'r ysgol; a
- Bydd gan ddisgyblion a staff traws fynediad i doiledau sy'n niwtral o ran rhyw.

12.2. Caiff pob ysgol eu monitro'n rheolaidd gan GwE y gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol a chynhelir arolygon ysgolion drwy Estyn.

---

## F. CASGLIAD

---

12.3. Mae polisïau, gweithdrefnau a systemau yn eu lle i leihau'r effeithiau negyddol a ragwelir gan yr asesiad hwn. Pe byddai effeithiau negyddol nas nodwyd yn deillio o weithredu'r cynnig, bydd y Cyngor yn gwneud pob cam ymarferol i ddarparu'r gefnogaeth briodol i'r unigolion a/neu grwpiau a gaiff eu heffeithio.